# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2016

Amser: 09.02 - 11.04

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC<br>Alun Ffred Jones AC (yn lle Jocelyn Davies AC) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Alistair McQuaid (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru) |

| | |
|---|---|
| | Huw Vaughan Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i’r cyfarfod.

1.2 Esgusododd Jocelyn Davies ei hun ar gyfer y cyfarfod o dan Reol Sefydlog 18.8. Dirprwyodd Alun Ffred Jones ar ei rhan.

## 2 Papurau i’w nodi

2.1 Nodwyd y papur.

## 3 Cyflogau Uwch-reolwyr: Y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor

3.1 Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor.

3.2 Cytunodd yr Aelodau y dylai'r Cadeirydd ymateb i'r Ysgrifennydd Parhaol gan ofyn am eglurhad ynglŷn â nifer o faterion.

## 4 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

4.1 Nododd a thrafododd yr Aelodau y wybodaeth ychwanegol a ddaeth i law yn dilyn y sesiynau tystiolaeth a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2015.

## 5 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio: Ystyried yr Adroddiad Drafft

5.1 Trafododd yr Aelodau'r adroddiad drafft a nodwyd y byddai drafft diwygiedig ar gael i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Ionawr.